Taro'r Post

CYLCHLYTHYR TENANTIAID CYMDEITHAS TAI ERYRI Ionawr 2010

CODI STÊM

Yng nghanol y gaeaf, gall pobl wynebu problemau gydag anwedd yn eu cartrefi. Mae rhai pethau y medrwch eu gwneud eich hunain i leihau'r anwedd ac mae rhai pethau y mae'r Gymdeithas yn medru ei wneud i'ch helpu:

Y rheol aur wrth gwrs yw ceisio torri i lawr ar y lleithder – rhai ffyrdd o wneud hynny yw:-

- Rhoi caeadau ar sosbenni wrth goginio
- Sychu dillad y tu allan
- Sicrhau fod "fent" aer y peiriant sychu dillad yn mynd allan
- Osgoi gwresogydd paraffin neu nwy potel

Mae'r Gymdeithas, fel rhan o'i rhaglen gwelliannau, yn sicrhau fod gan eich tŷ lofft a waliau sydd wedi eu hinsiwleiddio yn ogystal â ffenestri dwbl. Mae gan y Gymdeithas hefyd raglen i atal drafftiau mewn tai yn sgil arolygon tenantiaid y ddwy flynedd diwethaf a amlygodd bod drafftiau mewn cartrefi yn broblem fawr.

Mae'r cynllun wedi bod yn llwyddiannus ac yn help i wneud cartrefi yn fwy cyfforddus ac i dorri biliau ynni. Un o'r tenantiaid sydd wedi cael budd yn barod yw Mrs Braizier o Lys Madryn, Pwllheli.

"Bu i mi son wrth Caren Jones o Gymdeithas Tai Eryri am y drafftiau sydd yn dod drwy drws ffrynt," meddai Mrs Braizier. "mae cael drafftprwffio gan Gwynfor yn mynd i atal hyn".

Rhoddwyd cyngor hefyd ar sut i ddefnyddio "storage heaters" yn fwy cost effeithiol. "Nid oeddwn wedi sylweddoli sut i osod y swits mewnbwn a rhyddhau gwres ar y gwresogydd." meddai Mrs Braizier. "Y gobaith yw galluogi mwy o wres yn ystod y dydd a rheoli'r gwres hwnnw." Am ragor o wybodaeth am y rhaglen atal drafftiau cysyllwch ag Alan Williams ar 01286 889208

CANMOL EITHINOG

Mae Tai Eco Eithinog wedi cael eu canmol eto. Y tro hwn, gan neb llai na'r Gweinidog dros Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, Jane Davidson.

Ymwelodd y Gweinidog ag Eithinog ym Mangor ym mis Mai. Cafodd hi'r cyfle i gwrdd â'r tenantiaid, a thrafod profiad o fyw mewn tŷ gwyrdd.

Yn ystod ei hymweliad dywedodd Jane Davidson: "Yr amgylchedd adeiledig yw'r prif gyfrannwr tuag at nwyon tŷ gwydr yng Nghymru. Mae'r ffordd yr awn ati i gynllunio a defnyddio'n cartrefi ac adeiladau eraill yn cyfri am 40% o gyfanswm ein allyriadau carbon. Mae'n hollbwysig bod pob un o'n hadeiladau newydd yn defnyddio ynni'n effeithiol a'u bod mor wyrdd â phosibl.

"Mae'n wych gweld Cymdeithas Tai Eryri yn rhoi cynaliadwyedd ar flaen ei hagenda gan ymgyrraedd ymhell tu hwnt i'r safonau effeithlonrwydd ynni cyfredol," meddai hi.

Alun Ffred Jones AC, Claire Meredith a Jane Davidson AC.

"Yn ddiweddar cafodd safonau gwyrdd cenedlaethol newydd ar gyfer adeiladau eu datgan gennyf," meddai'r Weinidog. "Bwriad y rhain yw lleihau allyriadau carbon adeiladau a'u gwneud yn fwy cynaliadwy. Cymru yw'r rhan gyntaf o'r DU i osod safon cenedlaethol ar gyfer adeiladau cynaliadwy."

NEWID Y FFORDD YR YDYM YN GWEITHIO

Mae Cymdeithas Tai Eryri yn newid i wella'r gwasanaeth y mae'r tenantiaid yn ei dderbyn.

Eleni, bydd dau dîm ardal newydd yn cael eu sefydlu, un yn y Gogledd (yn Llangefni) a'r llall yn y De (ym Mhen y Groes). Yn y ddau dîm bydd swyddogion yn delio gyda gosod tai, eiddo gwag, achosion niwsans, ol-ddyledion rhent, ymweliadau stâd e.e. tâl gwasanaeth. Yn ogystal, bydd swyddogion a chrefftwyr yn delio gyda gwaith cynnal a chadw dyddiol a gwaith cyn ail osod o fewn y ddau dîm.

Mae'r Gymdeithas hefyd yn sefydlu Tîm Gwasanaeth Cwsmer mewn ymateb i ganlyniadau arolwg wnaethpwyd a oedd yn amlygu'r mannau i ni weithio'n fwy effeithiol. Mewn trafodaethau pellach gyda thenantiaid awgrymwyd ffyrdd i wella yn arbennig trwy ymateb i ymholiadau a galwadau ffôn yn gyflymach.

Mae rhai o'r gwasanaethau yn aros yn ganolog. Bydd gwaith atgyweirio sylweddol, gwelliannau, peintio cylchol a chytundebau gwasanaeth yn aros fel ag y maent. Hefyd bydd gwaith swyddogion ymddygiad gwrth-gymdeithasol, cyfranogiad tenantiaid a datblygu cymunedol a gwaith Tim Cefnogi Tenantiaid yn aros yn ganolig. Bydd y Gymdeithas yn anfon taflen at bob tenant gyda'r newidiadau yn fuan.

Papur wedi ailgylchu

YN DARPARU CARTREFI A GWASANAETHAU ER BUDD TRIGOLION A CHYMUNEDAU LLEOL

Prif swyddfa, Cymdeithas Tai Eryri, Tŷ Silyn, Y Sgwâr, Penygroes, Caernarfon, Gwynedd LL54 6LY

Swyddfa Môn, 33-35 Stryd Fawr, Llangefni, Ynys Môn LL77 7NA

Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus ac Elusen Eithriedig: Rhif 22234R

RHIFAU FFÔN HANDI

Rhif ffôn Argyfwng
Cymdeithas Tai Eryri **0800 216 947**

Swyddfeydd Cymdeithas Tai Eryri
Penygroes **01286 881 588**
Llangefni **01248 750 359**
Llys Seion, Pwllheli **01758 703 087**
Penucheldre, Caergybi **01407 761 742**

Gwasanaethau Trais yn y Cartref, Ynys Môn **01248 750 903**

Gwefan: **www.taieryri.co.uk**

Budd-dâl
Cyngor Sir Ynys Môn **01248 752 658**

Cyngor Gwynedd:
Caernarfon **01286 682 698**
Pwllheli **01758 704 001**
Dolgellau **01341 424 349**

Ail-gylchu
Cyngor Gwynedd **01286 679 872**
neu **ailgylchu@gwynedd.gov.uk**
Cyngor Sir Ynys Môn **01248 752 860**

Shelter **0808 888 4444**
NHS Direct **0845 4647**
CAB
Ynys Môn **08451 203 708**
Gwynedd **08707 502 350**
Gofal a Thrwsio
Ynys Môn **01248 750 625**
Gwynedd **01766 510160**
Llinell Gymorth Camdrin yn y Cartref **0808 801 0800**

Os ydych angen copi o'r cylchlythyr yma mewn fformat gwahanol e.e. print bras cysylltwch â Debbie Toplis 01286 889213 debbie@taieryri.co.uk

CARTREFI NEWYDD

Mae'r Gymdeithas wedi bod yn brysur yn gosod cartrefi newydd yng Ngwynedd a Môn. Yn ddiweddar mae pump datblygiad gwerth mwy na £5 miliwn wedi'u cwblhau. Bydd y buddsoddiad yma yn creu 49 cartref newydd, yn cynnwys rhai i gael eu gosod neu gael eu gwerthu fel tai fforddiadwy i bobl leol.

Dros y pum safle mae cymysgedd o gartrefi gwahanol. Mae wyth fflat newydd yng Nghefn y Felin, Porthmadog, tra bo 6 byngalo yng Nghae Rhos, Caergybi. Hefyd yng Nghaergybi - Yr Hen Iard Goed - mae 25 o gartrefi, yn cynnwys fflatiau a thai 3 a 4 lofft.

Mae'r ddau arall ym Meirionnydd. Mae 4 tŷ fforddiadwy yn Llanfrothen, gyda'r opsiwn i denantiaid eu prynu. Yng Ngellilydan mae 6 cartref 3 llofft.

CAE CHWARAE

Plant o Trem y Moelwyn, Penrhyndeudraeth yn dathlu agoriad swyddogol eu cae chwarae newydd

Sbiwch beth sy'n tyfu yn y ardd gefn

Llwyddodd tenantiaid mewn bloc o fflatiau ym Mangor i dyfu llysiau eu hunain dros yr Haf er gwaethaf diffyg lle garddio.

Dechreuodd y prosiect dair mlynedd yn ôl. Yn ystod y flwyddyn gyntaf adeiladodd y tenantiaid wely blodau a basgedi. Pob blwyddyn maent wedi ychwanegu at yr ardd. Un flwyddyn adeiladwyd barbeciw bric a phlanwyd perlysiau. Yr hâf diwethaf ychawengwyd y gwely llysiau sydd wedi bod mor llwyddiannus. Tyfwyd letys, tomatos, nionod, tatws a ffa dringo. Mae rhai yn rhewi'r llysiau ar y Nadolig

Tynnwyd y llun ym mis Gorffennaf, pan oedd y ffa dringo yn cyrraedd saith troedfedd! Mae'n dangos nad oes angen cael rhandir mawr i cyn gwneud hyn!

AELODAU NEWYDD Y BWRDD RHEOLI



Mae gan y Gymdeithas 2 denant-aelod newydd ar y Bwrdd. Cafodd y ddwy eu hethol ym mis Mehefin. Mae Menna Roberts yn dod o Bwllheli, a Delyth Roberts o Gaernarfon. Mae Menna a Delyth yn frwdfrydig iawn i gyfrannu at waith y Bwrdd.

"Hoffwn i ymuno â'r Bwrdd oherwydd fy mod yn ifanc efo tipyn i gynnig ac efallai cael bod yn lais i denantiaid ifanc o fewn y Gymdeithas," meddai Menna.

"Teimlaf ar yr adeg yma bod gennyf botensial ac y medraf ddatblygu sgiliau a symud ymlaen i lefel rheoli," meddai Delyth. "Hefyd byddaf yn gallu helpu tenantiaid gydag unrhyw broblem."

CYNNAL A CHADW

Yn ystod 2008-09 derbynwyd holiaduron boddhad ganddoch am waith cynlluniedig a gwaith trwsio dydd i ddydd. Mae'r wybodaeth yma yn cael ei adrodd i gontractwyr ar eu perfformiad. Nid ydym yn datgelu eich gwybodaeth bersonol i'r contractwyr ond yn hytrach yn rhoi adroddiad cyffredinol ar eu gwaith.

Roedd canran oedd yn fodlon gyda gwaith ar waith dydd i ddydd, sef gwaith argyfwng, brys ac angenrheidiol yn 97.6% am 2008-09. Yn ystod Ebrill i Mehefin eleni cododd ychydig i 97.8%.

Roedd canran lefel boddhad am waith cynlluniedig, sef gwaith fel ffenestri newydd neu gosod cegin newydd, am 2008-09 yn 96%. O Ebrill i Mehefin 2009 roedd yn 100%!

Merched – Dewch i Dderbyn Cefnogaeth!

A ydych yn cael eich bygwth, bychanu neu sarhau? Mae Cymorth i Ferched De Gwynedd yn gallu helpu. Gallent gefnogi trwy, yn y lle cyntaf, trefnu i gwrdd mewn lle diogel, a chael cyfle i siarad a thrafod. Wedyn os bydd angen, gallent roi gwybodaeth am dai a budd-daliadau, materion cyfreithiol a chefnogaeth gydag anghenion y plant. Gallent fynd gyda chi pan fydd angen cefnogaeth, a'ch helpu i wneud dewisiadau gogyfer a gwell dyfodol.

Mae'r gwasanaeth yn gyfrinachol ac am ddim. Ffoniwch 01766 830 878 – 24 awr y dydd.

ANNE YN ENNILL

Mrs Anne Roberts o Felinheli oedd enillydd y tocyn siopa £100. Enillodd y tocynnau ar ôl cwblhau holiadur tenantiaid Arfon. Roedd Mrs Roberts yn falch iawn o ennill ac yn meddwl oedd yn syniad da iawn i denantiaid cael cyfle rhoi eu barn ar faterion pwysig.

TALU RHENT FFYRDD GWAHANOL I'CH SIWTIO CHI

AM RAGOR O GYNGOR NEU GEFNOGAETH, CYSYLLTWCH Â'R SWYDDOG RHENT AR 01286 889 225

Dewch i'r swyddfa
Penygroes neu Llangefni

Trwy ddebyd uniongyrchol

Ar lein
www.allpay.net

Dros y ffôn
gyda cherdyn banc
0870 243 6040
ar gyfer sustem automatig, neu ffoniwch y swyddfa

PayPoint
Yn y Swyddfa Post ayb, neu unrhywle sy'n defnyddio'r sustem 'Paypoint'

ATODIAD DYLED

NID YDYCH AR EICH PEN EICH HUN

CYNLLUN YSWIRIANT

Oes gennych chi yswiriant cynnwys digonol? Beth petaech yn cael llifogydd a llanast yn eich cartref neu bod rhywbeth yn digwydd i'ch dodrefn? Mae'r adeilad ei hun yn cael ei yswirio gan y Gymdeithas ond nid ydym yn yswirio'r cynnwys, sef eich eiddo chi.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth efo cwmni Jardine Lloyd Thompson drwy Cartrefi Cymunedol Cymru i ddarparu yswiriant cynnwys rhesymol, My Home Cymru. Ffoniwch JLT os oes gennych ddiddordeb yn y cynnig neu cymrwch air efo un o swyddogion y Gymdeithas a fydd yn gwneud yn siŵr eich bod yn cael y manylion.

Gall My Home Cymru gynnig:

- Taliadau fforddiadwy
- Hyblygrwydd – gallwch dalu gydag arian parod neu ddebyd uniongyrchol
- Yswirio symiau bychan
- Dim 'excess' – ni ofynnir i chwi dalu rhan gyntaf unrhyw hawliad
- Yn cynnwys pob côd post – dim eithriadau
- Polisi arbennig o dda – y newydd am yr hen – a chyfle i uwchraddio hefyd

HYRWYDDO BUDD-DALIADAU

Fel rydym wedi adrodd sawl gwaith yn Taro'r Post, mae Cynllun Hyrwyddo Budd-daliadau yng Ngwynedd i help pobl i hawlio budd-daliadau. Maent yn cefnogi unigolion a theuluoedd, gan gynnwys pensiynwyr, y di-waith, teuluoedd a phlant ag anableddau a gofalwyr i wneud cais am fudd-dal. Un peth na all y Cynllun ei wneud ydi gwirio eich pensiwn.

Hefyd mae tîm lleol Gwasanaeth Pensiwn yn cynnig helpu i gwblhau ffurflenni, i sicrhau eich bod yn derbyn y budd-dâl cywir. Mae ganddynt fannau gwybodaeth yng Nghaernarfon, Blaenau Ffestiniog a Phwllheli yng Ngwynedd. Neu gallwch ffonio'r rhif isod, a bydd rhywun yn dod i'ch cartref i wneud asesiad.

Am ragor o wybodaeth:
Cynllun Hyrwyddo Budd-daliadau Gwynedd: 0800 169 9729
Gwasanaeth Pensiwn: 0845 6060 275.

Cefnogi Tenantiaid

Mae gan y Gymdeithas ddau swyddog sy'n gallu helpu os oes gennych broblemau ariannol. Carol Jones a Verity Smith yw'r Swyddogion Cefnogi Tenantiaid.

Mae Carol a Verity yn gallu helpu gyda phroblemau cyffredin mewn sawl maes. Ond maent yn gallu helpu gyda phroblemau ariannol penodol hefyd, yn cynnwys:

- Hawlio budd-daliadau
- Rheoli arian, talu biliau a thrafod efo credydwyr
- Delio efo Dyledion Rhent
- Helpu gyda cyllidebu

Am ragor o fanylion cysylltwch â Verity ar verity@taieryri.co.uk - 01286 889205, neu Carol ar carol@taieryri.co.uk - 01286 889 265.

TAFLEN CYLLIDEBU

Ydych chi'n gwybod beth yw eich incwm bob wythnos? A faint ydych chi'n ei wario? Os ydych chi'n gwybod lle mae eich arian yn mynd, mae hyn yn gam mawr i gael rheolaeth arno.

Mae gan y Gymdeithas daflen sy'n gallu eich helpu i wneud cynllun incwm a gwario. Mae'n cynnwys lle i droi i gael cefnogaeth yn lleol.

Enw'r daflen yw 'Talu Rhent'. A pham talu rhent? Wel, y peth pwysicaf un i bobl yw gadw'r to uwch eu pennau. A gydag unrhyw broblem dyled, mae'r arbenigwyr yn dweud mai eich rhent neu eich morgais yw'r blaenoriaeth.

Am fwy o help neu gyngor, cysylltwch â Ffion, Iola neu Bethan.

FY NGHARTREF – CYFRIF POB CEINIOG

Bydd pob tenant newydd yn derbyn llawllyfr newydd sbon, i'w helpu gyda rheoli arian. Mae Fy Nghartref – Cyfrif Bob Ceiniog yn rhoi syniadau ymarferol ar lle medrwch chi wneud arbedion – ac osgoi mynd i ddyled. Cynhyrchwyd y llawlyfr gan Bartneriaeth Cynhwysiant Ariannol Gogledd Cymru, sy'n cynnwys Cymdeithas Tai Eryri.

TARIFFS

Un o'r ffyrdd hawsaf i arbed arian yw trwy newid eich cwmni trydan neu nwy. Mae'r arbenigwyr yn dweud eich bod yn gallu arbed o gwmpas £220 y flwyddyn. Fel arfer, mae'n rhatach i gael eich nwy a'ch trydan o'r un cwmni, yn lle ar wahân.

Mae'n gwneud synnwyr i chwilio o gwmpas, oherwydd bod y cwmnïau yn newid eu prisiau yn aml. Y ffordd ddrytaf i dalu ydi trwy ragdaliad - mae Debyd Uniongyrchol wastad yn rhatach, ac mae'n eich helpu i gynllunio eich taliadau yn fisol.

I bobl ar incwm isel, mae gan sawl cwmni 'tariff cymdeithasol', sy'n

cynnig pris i'w gymharu gyda'u pris gorau i gwsmeriaid eraill.

Mae'n gallu bod yn anodd gwybod beth yw'r beth gorau i'w wneud. I gael cymhariaeth, ewch ar wefannau fel www.uswitch.com. I dderbyn cyngor personol, cysylltwch â Caren Jones, Swyddog Cymuned ar 01286 889215 neu caren@taieryri.co.uk.

Llinell Gymorth Dyledion Tai Cymru

Housing Debt Helpline Wales
0800 107 1340
Llinell Gymorth Dyledion Tai Cymru

Gyda'r argyfwng ariannol yn dyfnhau, mae llawer o wybodaeth a chyngor ar gael - i ddweud y gwir, digon i ddrysu pobl. Un sydd yn eithaf newydd ydy'r Llinell Cymorth. Mae wedi cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gyda chefnogaeth Canolfan Cydweithredol Cymru.

Nod y llinell yw cynnig help i bobl sy'n rhentu a pherchnogion tai. Mae cyngor arbenigol ar gael, a gallent wneud asesiad ar unwaith. Os oes angen, gallwch gael apwyntiad gyda chwnsler. Bydd y cwnsler yn cynnal adolygiad llawn o'ch sefyllfa, a gwneud argymhelliad.

Y rhif ffôn pwysig yw: 0800 107 1340. Ac mae llawer o wybodaeth defnyddiol ar eu gwefan: www.housing-debt-helpline-wales.org/hafan/

Y Llechen – Undeb Credyd

I'r 8% o boblogaeth Cymru sydd heb gyfrif banc, mae Undebau Credyd yn gallu helpu pobl i gael mynediad i'r gwasanaethau ariannol mae'r gweddill yn gymryd yn caniataol.

Mae Undeb Credyd yn fudiad i'ch helpu i gynilo a benthyg arian. Mewn llawer o achosion, mae yn llawer rhatach i fenthyg gan Undeb Credyd na banc neu gymdeithas adeiladu. Yn bendant maent yn llawer, llawer rhatach na benthycwyr stepan drws.

Mae Undeb Credyd i Wynedd ac Ynys Môn, sef y Llechen. Mae yno i:

- Annog aelodau i gynilo'n rheolaidd
- Darparu benthyciadau rhad i aelodau
- Annog ei aelodau i reoli eu harian yn ofalus
- Datblygu synnwyr o weithio gyda'n gilydd

Ar hyn o bryd mae gan y Llechen fannau casglu yng Nghaergybi (3) a Llangefni yn Ynys Môn, a Maesgeirchen ym Mangor, Caernarfon, Bermo a Blaenau Ffestiniog yng Ngwynedd.

Am ragor o fanylion cysylltwch â'r Llechen ar 01286 678686.